**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-JJ-2895-20

Elin Jones AS/MS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

17 Medi 2020

Annwyl Llywydd,

**Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020 ("y Gorchymyn")**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl y dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae'r Gorchymyn yn ceisio estyn y cyfnod pan fo'r trefniadau dros dro a gafodd eu cyflwyno gan Orchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("Gorchymyn 2020 cyntaf") yn berthnasol i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016.

Cyflwynwyd y trefniadau dros dro yng Ngorchymyn 2020 cyntaf i ymdrin ag adeiladau nad oeddent yn hanfodol yn cael eu cau, a'r cyfyngiadau ar deithio nad oedd yn hanfodol, a oedd yn atal y system gynllunio rhag gweithredu'n effeithlon. Roedd y rheini i ddod i ben ar 18 Medi ond byddant yn cael eu hestyn tan 8 Ionawr 2021.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 029 20823936
@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.cymru.gov.uk

Wrth i'r cyfyngiadau coronafeirws gael eu codi'n raddol, dylai'r angen am drefniadau dros dro fod wedi lleihau. Fodd bynnag, ein profiad ni yw, er bod y cyfyngiadau cyfreithiol wedi cael eu codi, mae llawer o adeiladau cyhoeddus megis llyfrgelloedd a swyddfeydd cynghorau wedi parhau i fod ar gau neu wedi cyfyngu mynediad. O ganlyniad, mae'r angen am y darpariaethau a amlinellir yng Ngorchymyn 2020 cyntaf wedi parhau er mwyn sicrhau bod y system gynllunio'n parhau i weithio mewn modd effeithlon.

Mae angen i'r Gorchymyn ddod i rym erbyn 18 Medi i sicrhau bod gwasanaethau cynllunio'n parhau.

Bydd peidio â dod â'r Gorchymyn i rym ar unwaith yn arwain at ôl-groniad o geisiadau cynllunio'n aros i gael eu cyflwyno, a byddai hyn yn cael effeithiau canlyniadol ar y sector adeiladu a'r economi, a hynny ar adeg pan fydd yn bwysig gwrthdroi colledion ariannol yn gyflym er mwyn lleihau'r difrod economaidd a chymdeithasol hirdymor sy'n cael eu peri. Ystyrir bod yr angen i weithredu'n gyflym yn cyfiawnhau anwybyddu'r confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn.

Oherwydd yr angen i roi'r Gorchymyn ar waith ar unwaith, nid yw wedi bod yn destun ymgynghoriad; fodd bynnag, mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd